# Y BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 21 Tachwedd 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Chair)

**Y Cynghorwyr:**
L.D. Evans, M. Gravell, D.M. Jenkins, G.O. Jones, P.A. Palmer, L.M. Stephens, J. Tremlett, H.A.L. Evans and T.J. Jones

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M. James, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
R. Sully, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
W. Walters, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
R. Staines, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 - 10.40 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| H.A.L. Evans | 7 - Adolygu'r Polisi Mynediad at Dai Cymdeithasol | Ei chwaer yw Prif Weithredwr Cymdeithas Tai |
| H.A.L. Evans | 13 – Adolygiad o Etholaethau Seneddol yng Nghymru 2018 – Cynigion Cychwynnol | Mae'n byw mewn etholaeth y mae'r cynigion yn effeithio arni |

## 3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y 17EG HYDREF, 2016

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 17eg Hydref 2016 yn gofnod cywir.**

## 4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2015/16 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GAERFYRDDIN

Cafodd y Bwrdd Gweithredol Adroddiad Monitro Blynyddol 2015/16 ynghylch gweithredu Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin, a luniwyd yn unol â gofynion Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a'r Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol. Roedd yr Adroddiad Monitro Blynyddol, sef y cyntaf i gael ei lunio, wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain Hydref 2016, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth, ac roedd yn ddatganiad ffeithiol yn unig ynghylch gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol. Roedd yn darparu llinell sylfaen y gallai'r adran ei defnyddio i asesu a monitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth weithredu polisïau a chynigion y Cynllun Datblygu Lleol, a ydynt yn gweithredu ac yn gweithio'n effeithiol, ac yn helpu i nodi a oedd unrhyw dueddiadau hirdymor sy'n golygu bod angen o bosib roi ystyriaeth i ddiwygiadau posibl i'r Cynllun yn y dyfodol.

Dywedwyd bod y gwaith monitro wedi dechrau ar gyfer yr ail adroddiad, ac y byddai'r Cyngor yn ceisio sylwadau hyd at fis Mawrth 2017 ynghylch gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol a fyddai wedyn yn cyfrannu at yr ail Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno, drwy broses wleidyddol y Cyngor, i Lywodraeth Cymru.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 11.1 cyfeiriodd y Cynghorydd D.M. Cundy at bwysigrwydd y ddogfen, gan ei bod yn rhoi manylion am weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol ym mhob rhan o'r sir, a mynegodd farn y byddai'n cael budd o gyfraniad holl Aelodau'r Cyngor. Yn unol â hynny, gofynnodd fod y Bwrdd Gweithredol yn rhoi ystyriaeth i'r posibilrwydd bod y Cyngor yn cynnal trafodaeth flynyddol ynghylch yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR**

**6.1 Bod Adroddiad Monitro Blynyddol 2015/16 - Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin yn cael ei dderbyn**
**6.2 Bod trafodaeth flynyddol yn cael ei chynnal ynghylch yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar Gynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru**

## 7. ADOLYGU'R POLISI YNGHYLCH MYNEDIAD AT DAI CYMDEITHASOL

(SYLWER: Gan fod y Cynghorydd H.A.L. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon eisoes, nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod tra trafodid yr eitem hon).

Cafodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad i'w ystyried ar yr adolygiad a gynhaliwyd ynghylch Polisi Mynediad at Dai Cymdeithasol y Cyngor a luniwyd yn sgil ymgynghori'n eang â'r cyhoedd a phartneriaid y Cyngor. Dywedwyd wrth y Bwrdd fod gofal wedi'i gymryd, wrth lunio'r adroddiad, i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol ac yn ymateb i'r ymgyngoriadau a oedd wedi dod i law. Y prif newidiadau i'r polisi oedd:

- Symleiddio'r polisi,

- Byddai blaenoriaeth yn cael ei rhoi i bobl yn Sir Gaerfyrddin ac i'r rheiny sydd â chysylltiad â'r Sir;
- Lleihau nifer y bandiau cymhwyso o bedwar i ddau;
- Dileu'r system bwyntiau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR**

**7.1 Derbyn canlyniadau'r ymarfer ymgynghori,**
**7.2 Cymeradwyo'r fersiwn drafft o'r Polisi Mynediad at Dai Cymdeithasol diwygiedig.**

## 8. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr adroddiad monitro ynghylch y gyllideb refeniw a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf fel yr oedd ar 31ain Awst 2016 mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2016/17.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad yn rhagweld y byddai gorwariant o £1,971k ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod ac y byddai gorwariant o £2,975k gan yr adrannau. Rhagwelid tanwariant o £667k yn y Cyfrif Refeniw Tai.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

12.1 derbyn yr Adroddiad Monitro ynghylch y Gyllideb;

**12.2 bod y Prif Swyddogion a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn adolygu eu sefyllfaoedd cyllidebol yn feirniadol ac yn cymryd camau priodol i ddarparu eu gwasanaethau yn unol â'r cyllidebau a ddyrannwyd iddynt.**

## 9. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2016-17

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ynghylch gwariant y Rhaglen Gyfalaf yn erbyn cyllideb 2016/17, fel yr oedd ar 31ain Awst, 2016.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr adroddiad diweddaru ynghylch y rhaglen gyfalaf yn cael ei dderbyn.**

## 10. STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW Y RHAGOLYGON O RAN CYLLIDEB REFENIW 2017/2018 i 2019/20

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr adroddiad uchod a oedd yn rhoi golwg gyffredinol ar Gyllideb Refeniw 2017/18 a'r ddwy flynedd ariannol dilynol. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am amserlen y broses gyllidebu, yn rhoi crynodeb o setliad dros dro Llywodraeth Cymru ac amserlen y setliad terfynol, ac yn clustnodi'r gwasgfeydd dilysu a'r gwasgfeydd cyllidebol y byddai angen i'r Aelodau roi sylw iddynt wrth bennu cyllideb refeniw'r flwyddyn nesaf. Hefyd roedd yr adroddiad yn sylfaen i'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb a fyddai'n cael ei chynnal yn ystod Tachwedd 2016 – Ionawr 2017 gyda phwyllgorau craffu y Cyngor a'r gymuned cyn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol ac wedyn i'r Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu elfennau allweddol y fersiwn drafft o strategaeth y gyllideb ac yn tynnu sylw at y ffaith y byddai setliad niwtral dros dro Sir Gaerfyrddin, er ei fod yn cael croeso, yn dal yn cael effaith negyddol ar adnoddau'r Cyngor o ystyried ffactorau chwyddiant, newidiadau demograffeg a chyfrifoldebau newydd neu'r galw am wasanaethau. Fodd bynnag, roedd hefyd yn galluogi'r Cyngor i ailystyried y targedau effeithlonrwydd mewn perthynas ag ysgolion a'r cynnydd yn y Dreth Gyngor a gynigiwyd yn ei ragolygon cyllidebol, ac yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer Gofal Cymdeithasol, parcio mewn canol trefi, cludiant ysgol ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu'r terfyn cyfalaf a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a oedd yn codi tâl am ofal preswyl o £24-£30k.

Nodwyd bod y strategaeth yn cynnwys £7.8 miliwn ar gyfer gwaith dilysu hanfodol ynghyd â £2.4 miliwn yn ychwanegol i ymateb i bwysau gwariant newydd a nodwyd gan adrannau, a bod £1.8 miliwn o'r swm hwn wedi cael ei ddyrannu i Ofal Cymdeithasol. Unwaith eto roedd yr adrannau wedi clustnodi arbedion effeithlonrwydd fel y nodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad a oedd yn werth cyfanswm o £8.8 miliwn ym Mlwyddyn 1 ynghyd â £16 miliwn yn ychwanegol yn ystod y ddwy flynedd ganlynol gan sicrhau y gallai'r Awdurdod, ar sail y rhagamcanion presennol, ddarparu gwasanaethau hanfodol ar yr un pryd â cheisio sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor ar lefel dderbyniol. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi golwg gyffredinol ar y cronfeydd wrth gefn, a oedd i'w hadolygu ymhellach, gan ragweld y byddai unrhyw arian wrth gefn sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r rhaglen gyfalaf a chyflawni cyfleoedd adfywio, a fyddai'n cynnal twf yn y Sir yn y dyfodol.

Roedd y cynigion cyllideb cyfredol, gan ystyried y ffactorau uchod, wedi cyfyngu'r cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor am 2017/2018 i 2.5%.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDL, fod cynnwys adroddiad y gyllideb yn cael ei nodi a'i gymeradwyo fel sylfaen i ymgynghori, a bod ymgais benodol yn cael ei gwneud i gael sylwadau gan ymgyngoreion ynghylch y cynigion effeithlonrwydd y manylwyd arnynt yn atodiad 'A' i'r adroddiad a ddosbarthwyd.**

## 11. Y RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD - 2017/18 - 2021/22

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn bwrw golwg gychwynnol ar y rhaglen gyfalaf 5 mlynedd o 2017/18 i 2021/22, a fyddai'n sail i'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb gyda'r aelodau a phartïon perthnasol eraill. Byddai'r adborth o'r broses ymgynghori, ynghyd â chanlyniad y setliad terfynol, yn cyfrannu i'r adroddiad terfynol ynghylch y gyllideb a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r aelodau i'w ystyried yn Chwefror, 2017.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo, at ddibenion ymgynghori, y rhaglen gyfalaf arfaethedig.**

## 12. ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH

Yn unol â Pholisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2016/17 (a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 23ain Chwefror, 2016 - gweler Cofnod 9), cafodd y Bwrdd Gweithredol y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys am y cyfnod o 1af Ebrill 2016 hyd 30ain Medi 2016.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 13. ADOLYGIAD O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU 2018 - CYNIGION CYCHWYNNOL

Gan gyfeirio at Gofnod 13 o'i gyfarfod ar 17eg Hydref, 2016, ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o gynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau ynghylch Adolygiad o Etholaethau Seneddol yng Nghymru 2018, i'r graddau y maent yn effeithio ar Sir Gaerfyrddin, ynghyd ag ymateb anwleidyddol drafft iddo ar sail yr heriau gweinyddol a logistaidd a godwyd gan y cynigion.

Dywedodd y Prif Weithredwr, wrth gyfeirio at yr ymateb drafft, fod swyddogion, wrth archwilio'r cynigion, wedi ymdrechu i gadw cymaint o'r sir gyda'i gilydd â phosibl, yn ogystal ag ystyried gofynion mathemategol y Comisiwn Ffiniau. Wrth wneud hynny, cynigiwyd y dylid cadw'r holl etholaethau gogleddol presennol yn y sir yn etholaeth arfaethedig Sir Gaerfyrddin, ac eithrio Llangyndeyrn, y cynigiwyd y byddai'n cael ei chynnwys yn etholaeth newydd Llanelli a Lliw. Awgrymwyd hefyd na ddylid derbyn y cynnig i gynnwys wardiau etholiadol Llangyfelach a Mawr yn etholaeth Llanelli a Lliw, ac y dylid eu cynnwys yn Etholaeth Gorllewin Abertawe.

Cadarnhaodd hefyd fod yr ymateb arfaethedig wedi bod yn seiliedig ar y materion gweinyddol a logistaidd a godwyd gan y cynigion, ac y byddai pleidiau gwleidyddol y Cyngor, ac unigolion, yn gallu ymateb yn uniongyrchol i'r Comisiwn Ffiniau ynghylch y cynigion.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**13.1 Cytuno ar yr ymateb a gynigir i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ynghylch Adolygiad o Etholaethau Seneddol yng Nghymru 2018 – Cynigion Cychwynnol;**

**13.2 Nodi y byddai'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn cynnal 5 gwrandawiad cyhoeddus fel rhan o'r adolygiad, a bod gwrandawiad Sir Gaerfyrddin wedi cael ei gynnal ar 12fed-13eg Hydref yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg.**

## 14. RHAGLEN WAITH GYCHWYNNOL Y BWRDD GWEITHREDOL

Bu'r Bwrdd Gweithredol, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, yn ystyried ei Flaenraglen Waith a luniwyd drwy gydgysylltu â'r holl adrannau a Rheolwr Busnes y Bwrdd Gweithredol a oedd yn tynnu sylw at y prif benderfyniadau polisi a chyllidebol oedd i'w gwneud dros y 12 mis nesaf. Nodwyd y byddai'r rhaglen yn dal i gael ei hadolygu a'i chyhoeddi ddwywaith y flwyddyn gan sicrhau y byddai rhaglen gyfredol ar waith yn barhaus.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Flaenraglen Waith a ddiweddarwyd yn cael ei chymeradwyo i'w chyhoeddi.**

CADEIRYDD

DYDDIAD